## Comisiwn y Cynulliad
## Assembly Commission

**Dyddiad:** Dydd Mercher 17 Hydref 2007
**Amser:** 8.30-9.30
**Lleoliad:** 4B.

# AGENDA

### 1. ADNODDAU

**Tâl y Prif Chwipiaid**

Gofynnir am sylwadau Comisiwn y Cynulliad ar y papur amgaeedig sy'n amlinellu'r cymorth a roddir i'r chwipiaid ac sy'n cymharu'r cymorth a roddir mewn sefydliadau eraill.

**Papur 1 (AC) 4**

**Ystafell y Gymanwlad**

Cyflwynwyd cais i neilltuo ystafell lle y byddai modd croesawu dirprwyaethau ac arddangos lluniau o wleidyddion pwysig sy'n ymweld â'r Cynulliad a chynadleddau a fynychir. Gofynnir am sylwadau Comisiwn y Cynulliad ar y cynnig hwn.

### 2. ADRODDIAD Y BWRDD GWEITHREDOL I'R COMISIWN

Amgaeir adroddiad cyntaf y Bwrdd Gweithredol er gwybodaeth. Mae'r adroddiad yn cynnwys y diweddaraf am y camau a gymerwyd i fodloni amcanion strategol y Comisiwn, adroddiad am ddigwyddiadau a gweithgareddau allweddol, ynghyd ag adroddiad ariannol.

**Papur 2 AC (4)**

## 3. CYTUNO AR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 19 MEDI 2007

Gofynnir i Gomisiwn y Cynulliad gytuno bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Medi yn gywir.

**Papur 3 AC (4)**

## 4. PAPURAU I'W NODI

Gwahoddir Comisiwn y Cynulliad i nodi'r papurau a ganlyn, sef trawsgrifiad drafft y Pwyllgor Cyllid a phapur am gyllideb ddrafft y Comisiwn.

**Papur 4 AC (4)**
**Papur 5 AC (4)**

## 5. EITEMAU I'W RHOI AR AGENDA'R CYFARFOD A GYNHELIR AR 14 TACHWEDD

Ymhlith yr eitemau i'w rhoi ar agenda'r cyfarfod a gynhelir ar 14 Tachwedd y mae:

- Cynaliadwyedd y Senedd;
- Cynnydd yn nifer y Pwyllgorau;
- Adroddiad y Bwrdd Gweithredol.